# YMWELIAD SAFLE CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd W T Hughes (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Jeff Evans, John Griffith, Ken Hughes, Victor Hughes, Richard O. Jones, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands |
| **WRTH LAW :** | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (NJ)<br>Uwch Beiriannydd (Priffyrdd) (EJ)<br>Swyddog Rheoli Datblygu (Priffyrdd) (RE)<br>Cymhorthydd Gweinyddol / Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Lewis Davies, Ann Griffith, Vaughan Hughes |

---

**1. 14C135A – Cais llawn i godi annedd a garej breifat, creu mynedfa newydd i gerbydau ynghyd â gosod gwaith trin carthffosiaeth ar dir yn gyfagos i Glasfryn, Ty'n Lon**

Argymhellodd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2014, bod ymweliad safle'n cael ei gynnal i'r uchod.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu mai cais oedd hwn am annedd fforddiadwy o dan y Polisi Dros Dro, oedd yn wreiddiol yn annedd marchnad agored. Eglurodd i'r ymweliad safle gael ei drefnu oherwydd pryderon ynglŷn â'r fynedfa i'r safle arfaethedig. Edrychodd yr Aelodau ar y cynlluniau ac ar leoliad y fynedfa a gynigiwyd yn wreiddiol i'r datblygiad, sef yr hyn oedd wedi sefydlu'r angen am yr ymweliad safle. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod cynnig arall ar gyfer y fynedfa i gerbydau newydd gael ei dderbyn oedd yn disodli'r cynllun gwreiddiol, ac a fydd yn destun ymgynghori cyhoeddus. Dywedodd y Swyddog y byddai'r fynedfa i'r safle'n cael ei rhannu gyda Glasfryn, eiddo cyfagos. Dangoswyd y fynedfa a'r cynllun a'r anghenion llain gwelededd i'r Aelodau ar y safle.

Dywedodd y Swyddog Rheoli Datblygu (Priffyrdd) bod yr ymgeiswyr wedi dod i drefniant gyda'r cymdogion i wella'r fynedfa i'r ddau eiddo. Eglurodd y byddai'r ffordd yn cael ei lledu gydag un llain ar bob ochr i'r fynedfa, oherwydd bod y gwelededd ar hyn o bryd yn is-safonol. Eglurodd y byddai pileri, waliau a gwrychoedd oedd yn achosi rhwystr ar hyn o bryd, yn cael eu symud oddi yno.

**2. 19C1046C/LB - Cais am ganiatad adeilad rhestredig i ddymchwel rhan o'r ty yn Soldiers Point, Cergybi**

Yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar 5 Mawrth 2014, cynhaliwyd ymweliad safle i'r adeilad rhestredig Graddfa II.

Eglurodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu mai'r bwriad oedd dymchwel rhan ganolog unllawr yr eiddo nad oedd yn rhan o'r adeilad gwreiddiol. Roedd y rhan hon wedi ei hychwanegu yn hwyrach er mwyn cysylltu â'r adeiladau castellog gwreiddiol. Eglurodd y Swyddog bod tu mewn yr adeilad wedi ei ddifrodi yn dilyn tân yn 2011 ac i gysylltiad gael ei wneud â Thîm Tanau Bwriadol Llywodraeth Cymru i ganfod ffyrdd o rwystro mynediad pellach heb awdurdod, difrod a gwaethygiad yng nghyflwr yr adeilad. Dangosodd gynllun graddedig i'r Aelodau o'r datblygiad arfaethedig ac eglurodd y byddai'r adeilad yn

rhan o gynllun datblygu blaen y dŵr yn y dyfodol, gyda'r bwriad o droi'r adeilad yn amgueddfa.

3. **33C302 – Cais llawn i newid y defnydd o annedd (C3) i ran (A3) cludo bwydydd poeth i ffwrdd a rhan (C3) annedd ynghyd â chreu lle parcio ychwanegol yn Penffordd, Gaerwen**

Ymwelwyd â'r safle ar argymhelliad y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2014.

Eglurodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu mai cynnig oedd hwn i newid defnydd byngalo preswyl i le coginio bwydydd poeth i'w cludo i ffwrdd, a hefyd ystafelloedd byw. Cyfeiriodd y Swyddog at y safle fel un oedd ar groeslon ar yr A5, gydag eiddo masnachol y tu ôl, gyferbyn ac i'r ochr. Dangoswyd cynllun graddfa i'r Aelodau o'r datblygiad arfaethedig gyda llefydd parcio o fewn y safle. Eglurodd y Swyddog bod yr asiant yn nodi y byddai 60-70% o'r bwyd a werthir ar gyfer ei ddanfon i gartrefi, tra y byddai 30-40% yn cael ei archebu ar yr eiddo.

Nododd yr Arweinydd Tîm bod dau arosfan bws yn ardal yr eiddo, un gydag arosfan ar yr A5 a'r llall ar Stryd y Capel heb le i dynu i mewn.

Eglurodd yr Uwch Beiriannydd (Priffyrdd) bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio gyda'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol o safbwynt darpariaeth barcio a bod y datblygiad yn bwriadu lledu'r fynedfa i'r safle.

**Y CYNGHORYDD W T HUGHES**
**CADEIRYDD**